PECYN YR ECOLEGYDD

# PECYN CYMORTH INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA) A GWAITH CYSYLLTIEDIG

Pecyn B: Ecolegwyr | Rhan 3.1: IWA RWE (Ystlumod) Templed Datganiad Dull Lliniaru Cyffredinol

Cyfres Gwella Cartrefi

Caru • Love Ceredigion

Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ganlyniadau anfoddhaol sy’n codi yn sgil gweithredu unrhyw weithgareddau a geir o fewn y Pecyn Cymorth hwn. Nid yw’r defnydd o enwau perchnogol a masnachol o fewn y Pecyn Cymorth hwn yn golygu o angenrheidrwydd bod y cynnyrch yn cael ei gymeradwyo gan yr awduron.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o’r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, na thrwy unrhyw ddull, gan gynnwys llungopïo, recordio neu ddulliau trydanol a mecanyddol eraill, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan **Gyngor Sir Ceredigion**.

*Fersiwn 1.2 Medi 2016*

**Arweinwyr y Prosiect:** Graeme Lane a Leanne Bird

**Golygwyd gan:** Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion

**Ysgrifennwyd gan:** Catharine Wüste, Green Man Ecology Ltd.

**Cyfraniadau gan:** Graeme Lane, Cyngor Sir Ceredigion, yr Ecolegydd llawrydd Tom McOwat, Willmott Dixon Energy Services Ltd, Barbara Owsianka, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ian Thomas (gwirfoddolwr)

**Dyluniwyd gan**: InSynch

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymgyngoreion**: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod

**Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PG**

# Y PECYNNAU CYMORTH

## Pecyn A: Pecyn y Cleient

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

## Pecyn B: Pecyn yr Ecolegydd

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus

- *ffurflen gais*
- *templed MS*

## Pecyn C: Pecyn y Contractwr

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru

Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

## Pecyn D: Pecyn Lliniaru

Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo

Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw

Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau

Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar

Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo

# Y BROSES GYFAN

### CAM 1: Pennu'r risg i ystlumod ac adar sy'n magu

- Arolwg bwrdd gwaith gan gynnwys chwiliad y Ganolfan Cofnodion Lleol
- Arolwg ar droed gan ecolegydd cymwys i chwilio am arwyddion o ystlumod, a allai fod ystlumod yn bresennol, gan gynnwys mynedfeydd posib ac arwyddion o adar sy'n magu

Os nad oes DIM arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / a does dim tebygolrwydd bod ystlumod yn breswennol, gallwch fynd ymlaen â'r gwaith, gan ymgorffori'r gwelliannau ar gyfer yr eiddo dan sylw.

Os oes arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / mae'n bosibl bod ystlumod yn bresennol – ewch i gam 2.

### CAM 2: Cynllunio mesurau lliniaru

- Gwarchod rhag effeithio ar yr ystlumod drwy sicrhau bod yr holl fynedfeydd sydd ganddynt yn cael eu cadw, a thrwy beidio ag effeithio ar linell y to/y bondo
- Gwneud y gwaith y tu allan i dymor magu'r adar
- Darparu nythod newydd sy'n addas ar gyfer y rhywogaethau perthnasol

GELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / does dim angen ymestyn llinell y to / does dim angen bondo newydd

— Dylech lunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â'r datganiad dull ar gyfer yr eiddo dan sylw

NI ELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / mae angen ymestyn llinell y to / mae angen bondo newydd – ewch i gam 3.

### CAM 3: Arolwg presenoldeb / absenoldeb

- Os nad yw'n bosibl gwarchod rhag yr effeithiau posib, bydd angen cynnal arolygon presenoldeb/absenoldeb o'r ystlumod yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

Os NAD OES dim tystiolaeth o ystlumod

— Bydd angen llunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â datganiad dull yr eiddo dan sylw.

OS OES tystiolaeth o ystlumod. Dylech wneud cais am drwydded ystlumod penodol (rhanddirymiad) ar gyfer yr eiddo dan sylw, a gwneud y gwaith yn unol â'r datganiad dull (gan ymgorffori mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer adar) NEU peidiwch â gwneud y gwaith.

# Datganiad Dull Lliniaru Cyffredinol ar gyfer

# Gwelliannau Ynni

## Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (Ystlumod)

| | |
|---|---|
| **Rhif Cais Cynllunio** | |
| **Cyswllt** | |
| **Ecolegydd** | |
| **Rhif Trwydded Arolwg Ystlumod** | |
| **Dyddiad y Datganiad Dull** | |
| **Fersiwn** | |

## CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 3
CEFNDIR ..... 3
MESURAU LLINIARU ..... 3

A CYFLWYNIAD ..... 4
A.1 Cefndir (cyffredinol) ..... 4
A.2 Manylion llawn gwaith arfaethedig ar y safle sy'n dod dan y drwydded ..... 4
A.3 Gwaith y mae angen trwydded ar ei gyfer ..... 4

B ASESIAD O'R EFFAITH (YN ABSENOLDEB UNRHYW FESURAU LLINIARU)[1] ..... 5
B.1 Effeithiau tymor byr: aflonyddu ..... 5
B.2 Effeithiau tymor hir: colli clwydi ..... 5
B.3 Effeithiau tymor hir: chwalu/ynysu ..... 5
B.4 Effeithiau yn sgil y gwaith datblygu ..... 5
B.5 Maint yr effaith rhagweladwy ..... 5

C MESURAU OSGOI RHESYMOL ..... 5
C.1 Arolwg bwrdd gwaith ..... 5
C.2 Arolwg o'r safle ..... 6
C.3 Strategaeth liniaru ..... 6
C.4 Hyfforddiant ..... 6
C.5 Lles anifeiliaid ..... 7
C.6 Peirianwaith i sicrhau bod mesurau lliniaru a digolledu'n cael eu gweithredu ..... 7
C.7 Rhywogaethau eraill a warchodir ..... 7

### FFIGURAU

Ffigur 1: Panel mynedfa ystlumod Schwegler - plât blaen (chwith) a phlât cefn (dde; a werthir ar wahân) ..... 9
Ffigur 2: Cysgodfa ystlumod Schwegler (gwerthir mewn pecynnau o 2) ..... 9
Ffigur 3: Schwegler 1WI ..... 10
Ffigur 4: Blwch bondo (blychau parod ar gael) ..... 10
Ffigur 5: Bric ystlumod Norfolk ..... 10

### TABLAU

Tabl 1: Ffurflen Liniaru (un ffurflen i bob eiddo sydd angen mesurau lliniaru) ..... 8
Tabl 2: Enghraifft o Ffurflen Liniaru wedi'i llenwi ..... 11

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

***CEFNDIR***

Mae cartrefi ar draws Cymru'n cael gwelliannau ynni dan y cynllun [ENTER SCHEME HERE] er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni. Gall y cartrefi dan sylw gael un gwelliant neu gyfuniad o welliannau (e.e. insiwleiddio'r atig, gosod ffenestri newydd, gosod boeler newydd, ac insiwleiddio waliau allanol solet (IWAS). Mae'r tai'n amrywio o ran oed a gwneuthuriad ac mae rhwng 150 a 200 o dai ym mhob cynllun ar gyfartaledd.

Gall insiwleiddio'r atig ac insiwleiddio'r waliau allanol solet (IWAS), yn arbennig, beryglu rhywogaethau a warchodir (ystlumod ac adar) yn sgil y perygl o gau tyllau mynediad i fannau gorffwys a'r mannau gorffwys eu hunain.

Mae'r cynlluniau'n dechrau unwaith bod yr arian ar gael (ar unrhyw adeg o'r flwyddyn) a rhaid eu cwblhau o fewn ffrâm amser tynn. Mae'r amserlen gaeth, diffyg hyblygrwydd o ran dyddiad dechrau, a'r nifer fawr o dai sy'n rhan o'r cynllun, yn her logistaidd o ran cynnal arolygon rhywogaethau a warchodir; pur anaml y gellir cynnal arolygon i'r graddau a argymhellir o fewn y canllawiau cyhoeddedig ar gyfer arolygon ystlumod. Ar hyn o bryd, does dim canllawiau cyhoeddedig ar gael sy'n mynd i'r afael yn benodol â mesurau gwella ynni adeiladau.

***MESURAU LLINIARU***

Mae mesurau osgoi rhesymol ac atebion lliniaru parod wedi'u dyfeisio i alluogi prosiectau i fynd rhagddynt o fewn y terfynau amser llym, ac ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Nod y mesurau lliniaru yw cadw unrhyw dyllau all gael eu defnyddio gan fywyd gwyllt, gan osgoi aflonyddu ar, neu ddinistrio clwyd ystlumod (neu adar sy'n nythu). Mae'r mesurau hefyd yn diogelu swyddogaeth ecolegol y safle, ac yn sicrhau nad oes unrhyw effaith ar statws cadwraeth ffafriol unrhyw rywogaeth o ystlumod. Ymgysylltir ag ecolegydd ar ddechrau bob cynllun i asesu'r eiddo, i weld a yw'n debygol o gael ei ddefnyddio gan ystlumod (ac adar). Cedwir unrhyw dyllau neu fylchau all gael eu defnyddio gan ystlumod (neu adar). Y gofyniad lleiaf yw arolwg ar droed o lefel y ddaear, archwilio holltau/tyllau o'r sgaffald, ac archwilio unrhyw wagleoedd yn y to (fel bo angen). Mae'r cais cyfredol am drwydded ar gyfer trwydded ragofalus i ganiatáu aflonyddu ar glwyd/man gorffwys ystlumod os deuir o hyd i ystlumod yn annisgwyl yn ystod y gwaith. Sefydlir strategaeth lles anifeiliaid. Gwneir ceisiadau hefyd am drwyddedau rhanddirymiad ar gyfer tai penodol pan fo angen. Mae amryw o flychau ystlumod ac adar yn cael eu gosod fel nodweddion gwella cynefinoedd ar dai ymhob cynllun.

## CYFLWYNIAD

### *Cefndir (cyffredinol)*

A.1.1 Mae cartrefi ar draws Cymru wedi'u dewis ar gyfer gwelliannau ynni dan y cynllun [ENTER SCHEME HERE]. Y nod yw gwella safonau tai drwy leihau maint y gwres a gollir, a gostwng lefel yr allyriadau carbon o ganlyniad.

A.1.2 Bydd y cartrefi'n cael un gwelliant neu gyfuniad o welliannau, gan gynnwys insiwleiddiad ychwanegol yn yr atig, gosod ffenestri a boeleri newydd, ac insiwleiddio waliau allanol solet (IWAS). Gall y gwaith hefyd gynnwys ail-osod toeau cyfan.

A.1.3 Mae'r tai'n amrywio i raddau helaeth iawn a gallant fod o unrhyw oed a gwneuthuriad.

A.1.4 Mae nifer y tai sy'n rhan o gynllun penodol ar gyfer ardal benodol yn amrywio, ond fel arfer mae'n 150 i 500 o dai ar gyfartaledd.

A.1.5 Mae'r cynlluniau'n dechrau unwaith bod yr arian ar gael, gall hynny ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a rhaid eu cwblhau o fewn amserlen dynn a chyfyngedig yn aml.

A.1.6 Gall y gwaith, yn arbennig insiwleiddio'r atig ac insiwleiddio waliau allanol solet (IWAS) beryglu rhywogaethau a warchodir (ystlumod ac adar) o ganlyniad i gau tyllau mynediad i fannau gorffwys, a'r mannau gorffwys eu hunain. Mae enghreifftiau nodweddiadol yn cynnwys gofod tu ôl i'r estyll tywydd, tyllau yn y bondo, unrhyw dyllau sy'n arwain at wagleoedd yn y bargod a'r to, holltau yn y gwaith carreg allanol, wal geudod, bylchau rhwng plât y wal a'r to/bargod. Pan fydd to newydd yn cael ei osod, gellir colli unrhyw nifer o holltau o fewn adeiledd cyfan y to hwnnw (mewnol ac allanol).

A.1.7 Mae'r amserlen dynn, diffyg hyblygrwydd o ran dyddiad dechrau, a'r nifer fawr o dai sy'n rhan o gynllun, yn her logistaidd o ran arolygon rhywogaethau a warchodir; pur anaml y gellir cynnal arolygon i'r graddau a argymhellir o fewn y canllawiau cyhoeddedig ar gyfer arolygon ystlumod . Ar hyn o bryd, does dim canllawiau cyhoeddedig ar gael sy'n mynd i'r afael yn benodol â mesurau gwella ynni adeiladau.

### *Manylion llawn gwaith arfaethedig ar y safle sy'n dod dan y drwydded*

(Sylwer na fydd y gwaith arfaethedig canlynol yn berthnasol i bob eiddo)

A.1.8 Codi sgaffald o amgylch y waliau sydd i'w hinsiwleiddio.
A.1.9 Cyflawni'r gwaith insiwleiddio a rendro.
A.1.10 Gosod estyll tywydd, copinau ac estyll bondo newydd.
A.1.11 Addasu llinellau'r to os bydd angen (e.e. ymestyn y llechi).
A.1.12 Tynnu simneiau.
A.1.13 Insiwleiddio'r lofft/atig.
A.1.14 Mynediad at wagleoedd yn y to ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
A.1.15 Gosod ffenestri a drysau newydd.

### *Gwaith y mae angen trwydded ar ei gyfer*

A.1.16 Aflonyddu ar ystlumod (os ydynt yn dal i fod yno) pan gyflawnir y gwaith arfaethedig.
A.1.17 Y perygl o ddinistrio clwyd ystlumod.

**ASESIAD O'R EFFAITH (YN ABSENOLDEB UNRHYW FESURAU LLINIARU)**[1]

***Effeithiau tymor byr: aflonyddu***

A.1.18 Aflonyddu yn sgil presenoldeb sgaffald a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r adeiladu.

***Effeithiau tymor hir: colli clwydi***

A.1.19 Colli clwydi ystlumod

***Effeithiau tymor hir: chwalu/ynysu***

A.1.20 Y perygl o chwalu ac ynysu os collir rhwydwaith o fannau gorffwys rheolaidd o fewn ardal ddaearyddol benodol (e.e. o ganlyniad i IWAS). Mae'r ystlum lleiaf, er enghraifft, yn symud o amgylch yr un ardal trwy gydol y tymor.

A.1.21 Nid yw'r gwaith yn effeithio ar lystyfiant.

***Effeithiau yn sgil y gwaith datblygu***

A.1.22 Ni ragwelir unrhyw effeithiau yn sgil y gwaith datblygu oherwydd mae'r holl effeithiau posib yn digwydd yn ystod y gwaith ei hun.

***Maint yr effaith rhagweladwy***

A.1.23 Os deuir o hyd i glwydi ystlumod, bydd y cynllun yn sicrhau na fydd y gwaith yn andwyol o ran cadw statws cadwraeth ffafriol poblogaeth (neu nythfa) o ystlumod allai gael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig. Os bydd yr ecolegydd yn ystyried y gallai'r gwaith gael effaith andwyol, bydd y gwaith yn dod i ben a bydd ond yn ail-ddechrau dan amodau trwydded benodol.

**MESURAU OSGOI RHESYMOL**

***Arolwg bwrdd gwaith***

A.1.24 Bydd [ENTER CONTRACTORS HERE] yn trefnu bod yr ecolegydd yn cynnal arolwg bwrdd gwaith.

A.1.25 Gwneir arolwg o'r cofnodion ystlumod ac adar sy'n bodoli eisoes ar gyfer cynllun penodol. Bydd unrhyw gofnodion o glwydi ystlumod yn unrhyw eiddo a effeithir gan y gwaith arfaethedig yn cael eu holrhain, a dyfeisir dulliau lliniaru sydd wedi'u teilwra ar gyfer y safleoedd hynny. Dylid cynnal arolygon pellach fel bo angen ar y safleoedd dan sylw.

A.1.26 Bydd yr ecolegydd yn derbyn gwybodaeth am yr holl welliannau a wneir i bob eiddo. Bydd yr ecolegydd yn pennu trefn blaenoriaeth arolygon pellach ar eiddo sy'n cael eu waliau allanol a/neu atig wedi'i insiwleiddio, yn ogystal â tho newydd.

***Arolwg o'r safle***

A.1.27 Bydd [ENTER CONTRACTORS HERE] yn trefnu bod yr ecolegydd yn cynnal arolwg ar droed o'r holl eiddo sy'n rhan o gynllun.

A.1.28 Bydd yr ecolegydd yn cofnodi unrhyw dyllau, bylchau neu nodweddion all gael eu defnyddio gan ystlumod neu adar.

A.1.29 Bydd yr ecolegydd yn cynnal archwiliad manwl o'r holl dyllau, bylchau neu nodweddion all gael eu defnyddio gan ystlumod neu adar o ben y sgaffald, ac yn archwilio gwagleoedd yn y to pan fo angen. Bydd yr archwiliadau'n gwneud defnydd o offer archwilio priodol, gan gynnwys tortshis, endosgopau, ysbienddrychau ffocws agos, a drychau.

A.1.30 Os deuir o hyd i nythfa ystlumod, gall fod angen cynnal arolwg ychwanegol er mwyn cael digon o wybodaeth am y rhywogaeth, maint y nythfa, a'i statws. Gall hyn gynnwys arolygon mewnol, ac arolygon gwawr a/neu gyfnos. Bydd canlyniadau unrhyw arolygon ychwanegol yn gymorth i bennu'r mesurau lliniaru priodol ar gyfer yr eiddo hwnnw, a ph'un oes angen trwydded EPS benodol ar ei gyfer.

A.1.31 Bydd rheolwr y safle'n mynd gyda'r ecolegydd yn ystod yr holl arolygon manwl er mwyn trafod strategaeth liniaru briodol ar gyfer pob nodwedd unigol.

***Strategaeth liniaru***

A.1.32 Bydd y rheolwr safle a'r ecolegydd yn cytuno ar fesurau lliniaru parod priodol, fydd yn diogelu tyllau, bylchau neu nodweddion all gael eu defnyddio gan ystlumod neu adar. Bydd yr ecolegydd yn nodi pa fesurau sy'n briodol ar gyfer sefyllfa benodol neu eiddo penodol. Bydd Ffurflen Liniaru bwrpasol (Tabl 1) yn cael ei llenwi ar gyfer pob eiddo lle mae mesurau lliniaru ar gyfer ystlumod (neu adar) yn ofynnol. Mae'r Ffurflen Liniaru'n cynnwys rhestr o'r holl strategaethau lliniaru posib. Bydd yr ecolegydd yn tanlinellu'r nodweddion sydd eu hangen ar gyfer yr eiddo a effeithir (e.e. Tabl 2). Mae'r tabl hefyd yn gosod seiliau'r archwiliad cydymffurfio ar ddiwedd y gwaith lliniaru.

A.1.33 Bydd rheolwr y safle'n sicrhau bod yr holl waith lliniaru'n cael ei gwblhau. Mae peidio â gweithredu'r mesurau lliniaru yn unol â'r adroddiad yn golygu peidio â chydymffurfio â'r drwydded, sy'n drosedd dan y gyfraith Ewropeaidd, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 fel y'u diwygiwyd. Mae hefyd yn drosedd i roi gwybodaeth ffug mewn perthynas â thrwydded,

A.1.34 Bydd rheolwr y safle'n trefnu bod yr ecolegydd yn cynnal archwiliad cydymffurfio mewn perthynas â'r mesurau lliniaru a amlinellwyd yn unrhyw adroddiadau ecolegol sy'n gysylltiedig â'r cynllun, a hynny cyn tynnu unrhyw sgaffaldau, a chyn i'r contractwyr adael y safle. Bydd unrhyw waith lliniaru nas cwblhawyd fel y cytunwyd yn cael ei gywiro.

***Hyfforddiant***

A.1.35 Bydd yr holl gontractwyr/rheolwyr safle sy'n ymwneud â chynlluniau IWAS ac insiwleiddio lofft/atig eiddo yn trefnu bod yr ecolegydd yn rhoi sgwrs 'bocs tŵls' sy'n pwysleisio'r perygl i ystlumod/adar a phwysigrwydd y mesurau lliniaru.

***Lles anifeiliaid***

A.1.36 Os gwelir/deuir o hyd i unrhyw ystlumod pan na fydd yr ecolegydd ar y safle, yna bydd y contractwyr yn rhoi'r gorau i weithio, yn gorchuddio/sgrinio'r ystlumod eto ac yn cysylltu â'r ecolegydd (ENTER ECOLOGIST CONTACT DETAILS HERE) i gael cyfarwyddiadau pellach. Os na ellir cael gafael ar yr ecolegydd, dylid cysylltu â swyddog rhywogaethau a warchodir Cyfoeth Naturiol Cymru (0300XXX XXXX) neu linell gymorth yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (BCT) 0345 1300 228 (sydd ar agor allan o oriau swyddfa yn ystod y tymor gweithgar). Dylid osgoi cyffwrdd â'r ystlumod lle bo'n bosib, am resymau iechyd a diogelwch personol, ac i osgoi anafu'r ystlumod.

A.1.37 Os digwydd i unrhyw ystlumod gael eu hanafu'n ddamweiniol yn ystod y gwaith, dylid gosod yr anifail a anafwyd mewn blwch tywyll a rhoi gwybod i'r ecolegydd yn ddi-oed. Dylid rhoi cofnod o'r amgylchiadau i'r ecolegydd er mwyn adrodd i Gyfoeth Naturiol Cymru'n nes ymlaen.

A.1.38 Os digwydd i unrhyw ystlumod gael eu lladd yn ddamweiniol yn ystod y gwaith, dylid cadw'r corff a rhoi gwybod i'r ecolegydd yn ddi-oed. Dylid rhoi cofnod o'r amgylchiadau i'r ecolegydd er mwyn adrodd i Gyfoeth Naturiol Cymru'n nes ymlaen.

A.1.39 Os deuir o hyd i glwyd famolaeth (magwrfa) ystlumod ar unrhyw adeg yn ystod yr arolygon, yna bydd angen diogelu ardal y glwyd (h.y. gwarchod yr ystlumod) a bydd unrhyw waith yn cael ei ohirio tan adeg arall addas o'r flwyddyn. Gwneir cais am drwydded EPS ar gyfer yr eiddo os oes angen.

***Peirianwaith i sicrhau bod mesurau lliniaru a digolledu'n cael eu gweithredu***

A.1.40 Bydd daliwr y drwydded yn sicrhau bod y datganiad dull yn cael ei ddilyn yn gywir.

A.1.41 Bydd yr ecolegydd yn cynnal archwiliad o'r gwaith lliniaru cyn tynnu'r sgaffald i lawr. Rhoir tic yn erbyn y nodweddion a amlygwyd yn y golofn archwiliad ar y Ffurflen Liniaru (Tablau 1 a 2) ar gyfer yr eiddo dan sylw.

A.1.42 Bydd yr ecolegydd yn rhoi cyfarwyddiadau i reolwr y safle ar ail-osod unrhyw nodweddion bywyd gwyllt na osodwyd yn gywir.


***Rhywogaethau eraill a warchodir***

A.1.43 Er nad yw'r cais hwn am drwydded yn berthnasol ar gyfer adar, mae'n briodol sôn bod adar yn cael eu cynnwys yn yr arolygon a'r mesurau lliniaru. Gosodir blychau adar hefyd fel nodweddion gwella cynefinoedd. Yn ogystal, er nad yw'n drosedd o ran y drwydded, bydd y mesurau lliniaru'n golygu na osodir unrhyw rwystrau ar draws mynedfeydd ystlumod. Bydd gwelliannau ar gyfer ystlumod yn cael eu cynnwys yn y cynllun hefyd.

**Tabl 1: Ffurflen Liniaru (un ffurflen i bob eiddo sydd angen mesurau lliniaru)**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad:** | | |
| Dilynwch y dulliau lliniaru isod | | |
| Angen arolwg pellach | Archwilio gwagleoedd | |
| | Arolwg ymddangos/dychwelyd i'r glwyd | |
| Trwydded EPS ar gyfer eiddo penodol | | |
| **Nodwedd** | **Mesurau Lliniaru** | **Archwiliad** |
| ***IWAS*** | | |
| Lapiad plwm | Peidiwch â gwasgu unrhyw lapiad plwm i lawr. | |
| Bwlch tu ôl i'r astell dywydd | Insiwleiddiwch hyd at 5cm islaw ymyl gwaelod yr astell dywydd.<br>Crëwch arwyneb garw ar ben trim yr insiwleiddiad | |
| | Insiwleiddiwch hyd at yr astell dywydd ond gadewch fwlch (fel y cytunwyd gyda'r ecolegydd) | |
| | Gadewch fwlch ar bob pen i'r astell dywydd. | |
| Twll yn yr astell fondo | Insiwleiddiwch hyd at 5cm yn is na thop y wal.<br>Crëwch arwyneb garw ar ben trim yr insiwleiddiad. | |
| | Insiwleiddiwch hyd at yr astell dywydd ond gadewch fwlch (fel y cytunwyd gyda'r ecolegydd). | |
| | Gosodwch Banel Mynedfa Ystlumod Schwegler (plât blaen yn unig; ffigur 1) i ganiatáu mynediad i'r twll. | |
| | Gosodwch Gysgodfa Ystlumod Schwegler (ffigur 2). | |
| | Gosodwch flwch ystlumod yn y bondo (ffigur 4). | |
| Bwlch dan y bargod/copinau | Insiwleiddiwch hyd at 5cm islaw ymyl gwaelod y bargod/copinau.<br>Crëwch arwyneb garw ar ben trim yr insiwleiddiad. | |
| Hollt rhwng cerrig neu friciau'r wal | Gadewch yr hollt fel y mae. | |
| | Gosodwch fric ystlumod Ibstock (ffigur 5). | |
| | Gosodwch Banel Mynedfa Ystlumod Schwegler (plât blaen yn unig; ffigur 1) i ganiatáu mynediad i'r twll. | |
| | Gosodwch Gysgodfa Ystlumod Schwegler (ffigur 2). | |
| ***INSIWLEIDDIO LOFFT/ATIG*** | | |
| (Unrhyw) dystiolaeth o ystlumod yng ngwagle'r to | Gwnewch yn siŵr fod yna ecolegydd yn bresennol yn ystod y gwaith insiwleiddio. | |
| | Insiwleiddiwch yn ystod misoedd yr hydref yn unig. | |
| | Peidiwch â blocio'r bondo. | |
| ***GOSOD TO NEWYDD*** | | |
| Pob to (p'un ai oes | Ewch ati yn ystod misoedd yr hydref yn unig. | |

| | | |
|---|---|---|
| tystiolaeth o ystlumod ai peidio) | Trefnwch fod yna ecolegydd ar y safle pan fyddwch chi'n tynnu'r to. | |
| | Dylid tynnu'r to â llaw. | |
| | Gosodwch flwch lloches ystlumod (mewn lleoliad a gytunwyd gyda'r ecolegydd) | |
| | Bydd angen trwydded EPS benodol (ar gyfer unrhyw safle sydd â chlwyd famolaeth, os na ellir cyflawni'r gwaith yn unol â'r datganiad dull hwn). | |
| ***GWELLA BIOAMRYWIAETH*** | | |
| Blychau ystlumod | Panel Mynedfa Ystlumod Schwegler *gyda* phlât cefn (ffigur 1) | |
| | Schwegler 1WI (ffigur 3) | |
| Blychau adar | Blwch briciau blaen agored | |
| | Teras Adar y To | |
| | Blwch nythu cyffredinol | |
| | Blwch nythu Gwennol Ddu | |
| | Cysgodfa Gwennol y Bondo (gorfodol os bydd lled y bondo'n cael ei leihau a safle nyth Gwennol y Bondo'n cael ei golli) | |




**Ffigur 1: Panel mynedfa ystlumod Schwegler - plât blaen (chwith) a phlât cefn (dde; a werthir ar wahân)**



**Ffigur 2: Cysgodfa ystlumod Schwegler (gwerthir mewn pecynnau o 2)**



**Ffigur 3: Schwegler 1WI**



**Ffigur 4: Blwch bondo (blychau parod ar gael)**



**Ffigur 5: Bric ystlumod Norfolk**

**Tabl 2: Enghraifft o Ffurflen Liniaru wedi'i llenwi**

<table>
<tr><td colspan="3">Cyfeiriad:<br>53 Random Road, Gotham</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dilynwch y dulliau lliniaru isod</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Angen arolwg pellach</td><td colspan="2">Archwilio gwagleoedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Arolwg ymddangos/dychwelyd i'r glwyd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Trwydded EPS ar gyfer eiddo penodol</td></tr>
<tr><td>Nodwedd</td><td>Mesurau Lliniaru</td><td>Archwiliad</td></tr>
<tr><td colspan="3">IWAS</td></tr>
<tr><td>Lapiad plwm</td><td>Peidiwch â gwasgu unrhyw lapiad plwm i lawr.</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Bwlch tu ôl i'r astell dywydd</td><td>Insiwleiddiwch hyd at 5cm islaw ymyl gwaelod yr astell dywydd.<br>Crëwch arwyneb garw ar ben trim yr insiwleiddiad</td><td></td></tr>
<tr><td>Insiwleiddiwch hyd at yr astell dywydd ond gadewch fwlch (fel y cytunwyd gyda'r ecolegydd)</td><td></td></tr>
<tr><td>Gadewch fwlch ar bob pen i'r astell dywydd.</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="5">Twll yn yr astell fondo</td><td>Insiwleiddiwch hyd at 5cm yn is na thop y wal.<br>Crëwch arwyneb garw ar ben trim yr insiwleiddiad.</td><td></td></tr>
<tr><td>Insiwleiddiwch hyd at yr astell dywydd ond gadewch fwlch (fel y cytunwyd gyda'r ecolegydd).</td><td></td></tr>
<tr><td>Gosodwch Banel Mynedfa Ystlumod Schwegler (plât blaen yn unig; ffigur 1) i ganiatáu mynediad i'r twll.</td><td></td></tr>
<tr><td>Gosodwch Gysgodfa Ystlumod Schwegler (ffigur 2).</td><td></td></tr>
<tr><td>Gosodwch flwch ystlumod yn y bondo (ffigur 4).</td><td></td></tr>
<tr><td>Bwlch dan y bargod/copinau</td><td>Insiwleiddiwch hyd at 5cm islaw ymyl gwaelod y bargod/copinau.<br>Crëwch arwyneb garw ar ben trim yr insiwleiddiad.</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="4">Hollt rhwng cerrig neu friciau'r wal</td><td>Gadewch yr hollt fel y mae.</td><td></td></tr>
<tr><td>Gosodwch fric ystlumod Ibstock (ffigur 5).</td><td></td></tr>
<tr><td>Gosodwch Banel Mynedfa Ystlumod Schwegler (plât blaen yn unig; ffigur 1) i ganiatáu mynediad i'r twll.</td><td></td></tr>
<tr><td>Gosodwch Gysgodfa Ystlumod Schwegler (ffigur 2).</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">INSIWLEIDDIO LOFFT/ATIG</td></tr>
<tr><td rowspan="3">(Unrhyw) dystiolaeth o ystlumod yng ngwagle'r to</td><td>Gwnewch yn siŵr fod yna ecolegydd yn bresennol yn ystod y gwaith insiwleiddio.</td><td></td></tr>
<tr><td>Insiwleiddiwch yn ystod misoedd yr hydref yn unig.</td><td></td></tr>
<tr><td>Peidiwch â blocio'r bondo.</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">GOSOD TO NEWYDD</td></tr>
<tr><td>Pob to (p'un ai oes</td><td>Ewch ati yn ystod misoedd yr hydref yn unig.</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| tystiolaeth o ystlumod ai peidio) | Trefnwch fod yna ecolegydd ar y safle pan fyddwch chi'n tynnu'r to. | |
| | Dylid tynnu'r to â llaw. | |
| | Gosodwch flwch lloches ystlumod (mewn lleoliad a gytunwyd gyda'r ecolegydd) | |
| | Bydd angen trwydded EPS benodol (ar gyfer unrhyw safle sydd â chlwyd famolaeth, os na ellir cyflawni'r gwaith yn unol â'r datganiad dull hwn). | |
| ***GWELLA BIOAMRYWIAETH*** | | |
| Blychau ystlumod | Panel Mynedfa Ystlumod Schwegler *gyda* phlât cefn (ffigur 1) | |
| | Schwegler 1WI (ffigur 3) | |
| Blychau adar | Blwch briciau blaen agored | |
| | Teras Adar y To | |
| | Blwch nythu cyffredinol | |
| | Blwch nythu Gwennol Ddu | |
| | Cysgodfa Gwennol y Bondo (gorfodol os bydd lled y bondo'n cael ei leihau a safle nyth Gwennol y Bondo'n cael ei golli) | |